Diweddariad i Aelodau
Llais y Goedwig
Rhif 11
Mehefin 2011

Helo bawb, a chroeso i Ddiweddariad mis Mehefin o Lais y Goedwig, taflen newyddion sy'n mynd at bob un o'n haelodau ar draws Cymru. Ein nod yw cynhyrchu un diweddariad ar ôl pob cyfarfod o'r bwrdd i gadw ein haelodau mewn cysylltiad â'r penderfyniadau a wnaed ynddynt a'r hyn sy'n digwydd yn ehangach ym myd coetiroedd cymunedol yng Nghymru.

Croeso cynnes i'n haelodau grŵp llawn mwyaf newydd - Cyfeillion Coedwigoedd Pen y Maes (sydd wedi'i leoli ger Aberteifi) a Cornerwood (sydd wedi'i leoli yn Nhreffynnon).

Mae'r diweddariad hwn yn cynnwys cyfle i fod yn westeiwyr digwyddiad undydd nesaf Llais y Goedwig, adran newydd yn rhoi lle amlwg i aelod a gwahoddiad i gyfarfod cyntaf o Weithgor Polisi Llais y Goedwig, i'w gynnal yn ôl pob tebyg ar yr 21ain o Orffennaf, lle gallwch gynorthwyo i lunio maniffesto LlyG a'r weledigaeth am y berthynas ddelfrydol rhwng y coedwigoedd a phobl Cymru. Bydd hefyd yn cynnwys adborth o'r cyfarfodydd mwyaf diweddar ac adroddiadau, crynodeb o rai digwyddiadau coetir yn ystod yr haf a'r newyddion diweddaraf am gyllid. Anfonwch fanylion am unrhyw ddigwyddiadau yr ydych wedi eu cynllunio neu newyddion yr hoffech ei rannu gyda'r rhwydwaith (erbyn 12fed Gorffennaf os oes modd) a byddwn yn ceisio eu cynnwys yn y diweddariad nesaf. Mae Jo fel arfer yn y swyddfa ddydd Mawrth, Iau a Gwener, a gellir cysylltu â hi ar jo.cooper@llaisygoedwig.org.uk neu 01654 700061.

Cynnwys:

- Galwn arnoch i gynnal digwyddiad rhwydweithio Llais y Goedwig
- LlyG - Gweithgor Polisi
- Aelod Grŵp a amlygir - Coed Y Bobl
- Digwyddiadau Coetir a chyrsiau
- Taflenni hyrwyddo / crysau-T / darllenydd newid yn yr hinsawdd
- Adrodd yn ôl o gyfarfodydd
- Adroddiadau Diweddar
- Diweddariad ar Adnoddau LlyG
- Newyddion cyllido
- Slip archebu i'w rwygo ymaith

Galwn arnoch i gynnal digwyddiad rhwydweithio Llais y Goedwig

Yn dilyn llwyddiant cynhadledd "Cyllido Coetiroedd Cymunedol Cynaliadwy " yn Ninbych ym mis Mawrth, rydym yn awr yn dechrau meddwl am y digwyddiad nesaf ac yn chwilio am grŵp sy'n aelod i fod yn westeiwyr. Yn ddelfrydol, byddai'r digwyddiad yn tua dechrau mis Medi, ac yn gyfarfod undydd anffurfiol gyda digon o gyfle i rwydweithio, rhannu sgiliau a phrofiadau, ymweld â choetir a chwrdd â chyfeillion hen a newydd. Bydd aelodau o fwrdd a staff Llais y Goedwig wrth law i gynorthwyo efo cynllunio, hyrwyddo a rheoli'r digwyddiad, ond hoffem gynnig y cyfle i grŵp coetir cymunedol arddangos eu hardal i aelodau eraill.

A allech chi neu eich grŵp ein cynorthwyo yn y modd yma? Ac rydym yn croesawu unrhyw syniadau ar gyfer thema neu bwnc y teimlwch y byddai'n dda rhoi sylw iddo; cysylltwch â Jo i rannu eich syniadau jo.cooper@llaisygoedwig.org.uk 01654 700061.

LlyG - Gweithgor Polisi

Gorchwyl y cyfarfod polisi fydd ysgrifennu maniffesto ar gyfer coetiroedd Cymru – h.y. gweledigaeth o'r berthynas ddelfrydol rhwng coedwigoedd a phobl Cymru a sut y gallai hyn gael ei wireddu - felly dewch i ddweud eich dweud!

Mae dydd Iau Gorffennaf 21ain am 11am wedi ei osod fel dyddiad dros dro ar gyfer cyfarfod cyntaf y grŵp agored hwn a hynny ym Mharc Eco Dyfi, ger gorsaf drenau Machynlleth. Os hoffech ddod draw ond yn methu dod y tro hwn, yna cysylltwch â ni, gan y byddwn yn ceisio siapio'r cyfarfod o amgylch y rhai all ei fynychu, felly byddai modd ei newid. Am fwy o fanylion cysylltwch â jenny.wong@llaisygoedwig.org.uk neu i archebu lle cysylltwch â Jo.

Aelod Grŵp a amlygir:

Coetir Cymunedol Coed Y Bobl - Gan y Bobl ar Gyfer Y Bobl

Astudiaeth achos

Mae Ymddiriedolaeth Coed Y Bobl (YCYB) wedi ysgrifennu hanes eu coetir cymunedol, o'r dechreuadau yn 2005 hyd heddiw. Mae eu hastudiaeth achos yn canolbwyntio ar Coed y Bobl, coetir cymunedol wedi ei leoli ym Mhontarfynach, ym Mynyddoedd y Cambria - coetir a reolir gan y bobl ar gyfer y bobl. Wrth adrodd eu stori, mae YCYB wedi ceisio rhannu'r gwersi lawer y maent wedi eu dysgu ar y daith gydag aelodau Llais y Goedwig - mae'n llawn awgrymiadau ymarferol ar wirfoddoli, sicrhau cyllid, gweithio gyda Coed Cadw a rhai "*awgrymiadau gwych ar greu coetir ar safle gonifferaidd wlyb wedi ei dorri a'i glirio, tra'n cadw eu costau'n isel!"* Mae'n astudiaeth achos fywiog a gonest yn llawn lluniau a mapiau ac ystyriaethau. Diolch i YCYB am ei roi at ei gilydd i bob un ohonom ei rannu.

Gwirfoddolwyr Coed y Bobl Loretta Wigfall a Steve Wigfall yn derbyn siec oddi wrth Roger Stevens, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Mynyddoedd y Cambria.

Ffair Coetir Coed y Bobl

Bu'r digwyddiad ffair coetir a gynhaliwyd yng Nghoed y Bobl, Pontarfynach ar y 14eg o Fai yn boblogaidd iawn gyda thros 250 o bobl yn dangos eu cefnogaeth i'r digwyddiad trwy ddod iddo a chynorthwyo. Trefnwyd a gosodwyd y digwyddiad (a'i dynnu i lawr!) yn gyfan gwbl gan tua 20 o wirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Coed y Bobl.
Roedd y gweithgareddau ar gael i gyd yn rhad ac am ddim ac yn ymddangos fel eu bod yn taro tant gyda diddordebau'r cyhoedd a heidiodd yno i fod yn bresennol. Roedden nhw'n cynnwys lle poblogaidd i blant, tyliniadau llaw ac ysgwydd ymlaciol a'r arddangosfa heboca, yn ogystal â nifer o stondinau gwybodaeth. Darparwyd lluniaeth hyfryd gan Eglwys Sant Ioan Ysbyty Cynfyn. Roedd sawl math o grefftau coed y gallai pobl ymuno â hwy yn cael eu harddangos, gan gynnwys gwneud dodrefn, naddu pren, turnio pren a gwehyddu helyg.
Hoffai Ymddiriedolaeth Coed y Bobl ddiolch yn ddiffuant i bawb a fu'n cynorthwyo gyda'r paratoadau, ar y diwrnod ac ar ôl y digwyddiad a hefyd i bawb a fynychodd. Hoffem hefyd ddiolch i'n noddwyr (Cronfa Ymddiriedolaeth Fferm Wynt Cymuned Cefn Croes, Ymddiriedolaeth Mynyddoedd y Cambria, a Llais y Goedwig) am gefnogi'r digwyddiad, a wnaeth hi'n bosib i ni ei gynnig yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd. Rydym yn falch iawn bod y gymuned wedi cael gweld sut mae'r coetir wedi datblygu mewn 10 mlynedd ac yn gobeithio y bydd pobl yn dychwelyd i Coed y Bobl ar lawer ymweliad yn y dyfodol.

Digwyddiadau Coetir a chyrsiau

Isod mae detholiad o ddigwyddiadau mewn coetiroedd cymunedol a'r sector coetir ar hyd a lled Cymru – welwch chi eich un chi yma? Cysylltwch a gadewch i ni wybod beth rydych chi'n ei wneud, a gallwn roi manylion ar ein gwefan ac yn y diweddariad nesaf. Trwy rwydwaith yr aelodau, mae'r wybodaeth yma'n cyrraedd cynulleidfa bosib o 2000. Os dymunwch gael eich hatgoffa bythefnos cyn y dyddiad cau gofynnwch i Jo eich rhoi ar y rhestr atgoffa.

Gall adnoddau coetir cymunedol a thaflenni hyrwyddo hefyd gael eu darparu ar gyfer eich digwyddiad - gweler y nodyn isod am beth sydd ar gael a chysylltwch â Jo i archebu copïau.

Mae aelodau o fwrdd Llais y Goedwig yn dod o goetiroedd cymunedol ledled Cymru, felly mae modd i un neu fwy ohonom ddod i gefnogi eich digwyddiadau yr haf yma. Dyma gyfleoedd gwych i ddatblygu ein rhwydwaith, i gwrdd ag aelodau presennol a newydd, ac i chi ddweud wrthym ni beth y gall Llais y Goedwig ei wneud i chi ar ffurf cefnogaeth, cyngor neu arweiniad. Os yw eich grŵp yn cynnal unrhyw ddigwyddiadau yn ystod yr haf yma, rhowch wybod i ni. Gallwn hefyd ledaenu'r newyddion yn ein diweddariadau ac ar wefan Llais y Goedwig.

Gweler hefyd y rhestr gynhwysfawr hon o gyrsiau planhigion, anifeiliaid, cadwraeth a sgiliau cyffredinol http://llaisygoedwig.org.uk/wp-content/uploads/2011/06/Bwletin-Hyfforddiant-NATUR-Training-Bulletin-10-Mai- 2011-May.pdf

Digwyddiadau

- **Blwyddyn Ryngwladol Noson Ffilm y Goedwig** - Moelyci / Coetir Mynydd 19:00 16 Gorffennaf - Neuadd Goffa, Mynydd Llandygái ffoniwch 01248 602793 am fanylion
- **Diwrnod agored blynyddol Moelyci** 11:00-5:00 Dydd Sadwrn 3ydd Gorffennaf. Cerddoriaeth, stondinau a lluniaeth. Ffoniwch Naomi ar 01248 602793 am fwy o fanylion.

Cyrsiau / hyfforddiant

- **Sesiynau galw i mewn - gwaith coed gwyrdd - am ddim**

  Mae Mike Bithell, o grŵp Coedlan Moelyci, fel arfer yn rhedeg sesiwn galw i mewn am ddim i wneud sgiliau gwaith coed gwyrdd o 10 o'r gloch ar ddydd Sul. Cyflenwir offer, dewch â'ch ysbrydoliaeth efo chi. Mae'n agored i bawb, ond gwell ffonio yn gyntaf i sicrhau y bydd yno- 01248 602397.

- **Mae'r Ganolfan Dechnoleg Amgen** hefyd yn cynnal cyrsiau coetir a chrefft gweler y ddolen hon am fwy o fanylion.
  http://www2.cat.org.uk/shortcourses/index.php?cPath=6&osCsid=61c21a0edd37b8ed976f00ca197b52b4

- **Coleg Coppicewood** - wedi eu lleoli yn Sir Benfro
  * Gwaith Coed Gwyrdd 4 diwrnod o ddydd Llun 15fed Awst £160
  * Turnio Polion Sadwrn / Sul Awst 27ain/28ain £100
  * Cwrs Sgiliau Coetir sy'n rhedeg dydd Mercher a dydd Iau am 6 mis o ddydd Mercher 28ain o Fedi

  Ymholiadau i Bruce yn coppicewood01@aol.com
  http://coppicewoodcollege.co.uk

- Mae **Canolfan Sgiliau Coetir** – yn rhedeg ystod eang o gyrsiau rheoli coetiroedd a chrefft trwy gydol y flwyddyn yn eu canolfan ger Dinbych, yn ogystal â Diwrnodau, Penwythnosau ac Wythnosau Coetir i'r Teulu, a chyrsiau Byw yn y gwyllt - gweler http://www.woodlandskillscentre.co.uk/

  Ar gyfer ymholiadau cysylltwch â Rod: enquiries@bodfari-charcoal.co.uk

- **Sesiwn Flasu Hyfforddiant Ysgol Goedwig Lefel 3**
  Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n cynnal Sesiwn Flasu Hyfforddiant Ysgol Goedwig i rai sydd â diddordeb mewn gwneud cais i gwblhau cwrs hyfforddiant Arweinydd Ysgol Goedwig Lefel 3 Agored Cymru sydd ar ddod. Bydd y sesiwn flasu yn cael ei chynnal yng Nghoed Bryn Engan, Capel Curig ar y 13eg o Fehefin 2011, 4.00 - 6.00pm.
  I gael ffurflen gais ar gyfer y cwrs Lefel 3, cysylltwch â Carol Travers os gwelwch yn dda - carol.travers@forestry.gsi.gov.uk 0300 068 0300

- **Ysgol Goedwig Cymru – Diwrnod Rhannu Sgiliau a Rhwydweithio rhanbarth Canolbarth Cymru**
  25ain a 26ain o Fehefin, Coed Gwern, Y Ganolfan Dechnoleg Amgen, Machynlleth
  Cost £20 ynghyd â £25 aelodaeth YGC; consesiynau ar gael.
  Os hoffech chi gynorthwyo gyda'r digwyddiad yma, cael gwybod mwy, neu gadw lle, cysylltwch â Sarah neu Babs yn www.forestschoolwales.org.uk/contact-us/ neu ffoniwch Sarah ar 07917 210589.

- **Ymddiriedolaeth Fferm Paramaeth Dyfed - Cyrsiau 2011**
  I gadw lle ar gyfer yr holl gyrsiau e-bostiwch scythecymru@yahoo.co.uk neu ffoniwch Michelle ar 07813 464990

  Gweithdy Hogi Pladur a Blaenau Morthwylion Cyn belled ag y gwyddom, dyma'r unig gwrs pwrpasol ym Mhrydain ar gyfer hogi ac atgyweirio eich llafn! Dan arweiniad y torrwr gwair a'r athro pladur profiadol Philip Batten. Dydd Sadwrn Gorffennaf 9fed 10:00-4:00 Cost £ 40

Cyrsiau Pladur Rhagarweiniol Undydd
Y cyfan sydd angen ei wybod i ddechrau defnyddio pladur!
Dydd Sadwrn Mai 28ain, Dydd Sul Mehefin 25ain neu Dydd Sadwrn Awst 13
10:00-4:00 Cost £40

Cwrs pladur Dwys Dau Ddiwrnod
Bydd y cwrs hwn, sydd ar gyfer y torrwr gwair mwy profiadol neu ddechreuwr anturus, yn ein galluogi i ddysgu am bob agwedd o ddefnyddio pladur mewn mwy o ddyfnder Penwythnos Gorffennaf 16eg / 17eg Cost £ 100

- **Hyfforddiant Cynaladwyedd am ddim**
Mae Cymru Gynaliadwy yn gallu cynnig hyfforddiant rheoli staff a gwirfoddolwyr am ddim i 1 sefydliad cymunedol arall, - a fydd yn helpu i ysgogi, symleiddio ac annog ymatebion y grŵp ei hun i newid yn yr hinsawdd. Bydd y sesiwn yn cynorthwyo eich tîm i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun gweithredu gam wrth gam a fydd yn arwain at bolisi priodol a newidiadau ymarferol.

  Hefyd ar ôl hyn, mae arolwg carbon rhad ac am ddim ar gael i sefydliad sy'n cwblhau gwerthusiad cyfrifiadurol o'ch gweithgareddau cyfredol a'u heffeithiau. Mae'n argymell ac yn blaenoriaethu'r ffordd orau o symud ymlaen.

  Cysylltwch â info@sustainablewales.org.uk neu ffoniwch 01656 783405 am ragor o fanylion.

- Mae **Fforwm Ymarferwyr Ynni Cymunedol** yn datblygu cronfa ddata gyfeirio ar-lein o ddulliau profedig o fynd i'r afael ag ynni cymunedol. Ein bwriad yw y bydd yn dod yn adnodd gwerthfawr ar gyfer grwpiau ynni cymunedol a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi.
Bydd y canlyniadau yn bwydo i mewn i adnoddau a gynlluniwyd i gefnogi grwpiau cymunedol, gweithwyr cefnogi cymunedol ac asiantaethau/ awdurdodau lleol sydd yn cymryd rhan mewn prosiectau ynni. Os nad ydych yn gweithio yn y maes hwn, mae'n annhebygol y bydd yr holiadur yn briodol i chi, fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi pe gallech ei drosglwyddo i gydweithwyr, ei anfon o amgylch eich rhwydweithiau neu i grwpiau cymunedol yr ydych yn gweithio gyda nhw. Mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar ffurf arolwg ar-lein i grwpiau cymunedol, a chewch hyd iddo yn www.surveymonkey.com/s/B9QFHV3. Mae mwy o wybodaeth am y prosiect hwn hefyd ar gael drwy ddilyn y ddolen honno. Bydd pawb sy'n ymateb ac yn darparu manylion cyswllt yn cael cyfle i ennill raffl sydd â gwobr gwerth £100 o offer arbed ynni.

Taflenni hyrwyddo / crysau-T / darllenydd newid yn yr hinsawdd

Beth yw Llais y Goedwig a beth mae'n ei wneud i gefnogi grwpiau coetir cymunedol? Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi paratoi cyfres o daflenni am ffiniau'r rhwydwaith a'r cymorth mae Llais y Goedwig yn ei ddarparu. Mae'n werth cael golwg ar y rhain os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut y gallai Llais y Goedwig weithio gyda'ch grŵp neu eich sefydliad chi. Gobeithiwn y gwelwch hyn yn ddefnyddiol:

- Beth y gallwn ei wneud i grwpiau coetir cymunedol
- Beth y gallwn ei wneud ar gyfer awdurdodau lleol
- Beth y gallwn ei wneud ... cyhoeddiadau
- Beth y gallwn ei wneud ....gwefan ...
- Beth y gallwn ei wneud ... darllenydd newid yn yr hinsawdd

Mae'r rhain i gyd ar gael fel ffeiliau pdf i'w lawrlwytho o'r wefan http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/

Mae Jo hefyd yn hapus i lunio pecynnau hyrwyddo a fyddai'n cynnwys nifer o gopïau o'r taflenni a phentwr o gardiau post i chi i ledaenu'r neges am Llais y Goedwig. Cofiwch gysylltu â Jo, os byddwch yn mynychu unrhyw ddigwyddiadau lle gallech ddosbarthu taflenni.

Crysau-T a Darllenydd Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r rhain ar gael i'w prynu am ddim ond £10 yr un.

Crysau-T
Mae crysau-t newydd Llais y Goedwig yn cael eu gwneud gyda chotwm organig ac yn cael eu masnachu'n deg, ac ar gael i'w prynu am £10 dynion (M, L & XL) a menywod (M, L). Mae'r meintiau braidd yn fach, felly mae'n ddoethach archebu maint mwy na'r arfer. Gweler http://llaisygoedwig.org.uk/news am luniau a manylion pellach am fesuriadau pob un maint.

Mae *Darllenydd Newid yn yr Hinsawdd*
yn gasgliad o 40 o erthyglau a phapurau ar bob agwedd o'r rhyngweithio rhwng newid yn yr hinsawdd a choetiroedd. Mae cymaint â hyn o ddogfennau yn llawer i lafurio drwyddynt felly mae gan y Darllenydd lyfryddiaeth anodedig gyda graddfeydd seren i ddangos pa mor anodd ydynt fel y gallwch asesu'n gyflym gynnwys papur.

Mae'r pynciau sy'n ymddangos yn y Darllenydd yn cynnwys:
(a) newidiadau a ragwelir i strwythur a swyddogaeth coetir sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd yng Nghymru
(b) Argymhellion ar gyfer addasu a gwella gwydnwch coetiroedd Cymru a bioamrywiaeth
(c) Cyfraniad coetiroedd cymunedol i ddal a storio carbon.

Mae'r Darllenydd ar gael i'w brynu am £10 ar USB pren (pren FSC rhag ofn eich bod yn pendroni) gan ddefnyddio'r ffurflen archeb ar ddiwedd y Diweddariad neu drwy ffonio Jo. Mae'r ffeiliau sydd ynddo hefyd ar gael yn rhad ac am ddim ar y wefan: http://llaisygoedwig.org.uk/ccreader/

Adrodd yn ôl o gyfarfodydd

Ymgynghoriad Comisiwn Coedwigaeth Cymru FfMYC
Ar Fai 17eg, mynychodd staff ac aelodau Bwrdd Llais y Goedwig weithdy rhagarweiniol Fframwaith Menter ac Ymglymiad y Cyhoedd (FfMYC) a drefnwyd gan dîm polisi Coetiroedd i Bobl, Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC). Cynhaliwyd y digwyddiad ym Mroneirion, ger Llandinam, Powys, ac fe'i mynychwyd gan grwpiau coetir cymunedol, mudiadau trydydd sector, Rheolwyr Ardaloedd Lleol CCC, aelodau eraill o staff CCC ac unigolion â diddordeb.

Amcan y gweithdy oedd cyflwyno proses newydd i'r rheini sy'n gweithio gyda/ar ystâd CCC, proses o ennill caniatâd a chyfnewidiadau eraill i gael mynediad i dir ac adnoddau a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae'r system bresennol yn gwahaniaethu o ranbarth i ranbarth ac mae'r broses FfMYC newydd yn ymgais i safoni'r system yn genedlaethol. Roedd y gweithdy hefyd yn gyfle gwych i staff CCC gyfarfod â grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio ar ystâd y goedwigaeth yng Nghymru a rhannu adborth am y pethau cadarnhaol a negyddol o weithio gyda'i gilydd. Hwyluswyd y gweithdy mewn modd adeiladol iawn a chredaf i'r holl gyfranogwyr fanteisio llawer o'r cyfle i siarad wyneb yn wyneb. Craidd y

gweithdy oedd dadorchuddio'r broses newydd a sesiwn adborth am agweddau ohono, yn enwedig yr argraffiadau cyntaf o ffurflen newydd ar gyfer cael caniatâd neu hawl bellach i weithio gyda / ar ystâd a reolir gan CCC. Gweithdy agored oedd y sesiwn olaf gyda thri grŵp ffocws yn edrych ar: wneud coetir a reolir gan CCC yn economaidd gynaliadwy; sicrhau bod coed / tir / asedau tir CCC yn rhoi budd cymunedol; a'r hyn y dylai fframwaith ymglymiad y cyhoedd (cymdeithas sifil) ei gynnwys? Mae adroddiad CCC o'r gweithdy ar gael ar wefan Llais y Goedwig ar y ddolen hon:

http://llaisygoedwig.org.uk/wp-content/uploads/2011/06/PIEF-Workshop-May-17-2011-Summary-Report-v2.pdf

---

Adroddiadau Diweddar

Mae adroddiad Wavehill ar grwpiau Coetir cymunedol yng Nghymru allan yn awr, ac ar gael i'w lawrlwytho oddi ar y ddolen isod.

http://www.forestry.gov.uk/pdf/Wavehill-survey-CWGs-FINAL-REPORT-Feb2011a.pdf/ $FILE/Wavehill-survey-CWGs-FINAL-REPORT-Feb2011a.pdf

Gweler hefyd y papur Ymchwil Coedwig hwn ar wirfoddoli a allai fod o ddiddordeb http://www.forestresearch.gov.uk/pdf/Volunteering_in_Wales_report_April2011.pdf/ $FILE/Volunteering_in_Wales_report_April2011.pdf

---

Diweddariad ar Adnoddau LlyG

Cynhyrchodd Llais y Goedwig set o adnoddau sydd ar gael i'w lawrlwytho am ddim ar y wefan, neu gallwch gysylltu â Jo i gael tanysgrifiad print blynyddol o £20 i dderbyn copïau caled o'r holl gyhoeddiadau a gynhyrchir. Mae rhestr lawn o'r rhai a gynhyrchir isod (dylid nodi nad yw pob un yn gyflawn eto).

Nodiadau ymgynghorol

Mae'r rhain yn gyfres o daflenni gwybodaeth defnyddiol sy'n cynnwys awgrymiadau a chyngor am sefydlu a gweithio gyda grŵp coetir cymunedol. Maent yn lle gwych i ddechrau os ydych am gael grŵp ar ei draed ond yn teimlo'n ddryslyd am y camau nesaf. Maent hefyd yn dda iawn i grwpiau sy'n bodoli eisoes a fyddai'n hoffi cynllunio gweithgareddau a phrosiectau pellach. Y bwriad yw cynhyrchu mwy o'r taflenni hyn dros gyfnod o amser. Dywedwch wrthym os oes unrhyw agwedd o goetiroedd cymunedol y teimlwch y byddai'n ddefnyddiol i chi a'ch grŵp.

Nodiadau ymgynghorol	Saesneg	Cymraeg	Statws
AN1 - Dod i adnabod eich cymuned	Ie	Ie	Cyflawn
AN2 - Dod i adnabod eich coedwigoedd	Ie	Na	Gyda'r cyfieithydd
AN3 – Cynllunio rheoli coedlannau	Na	Na	Gyda'r golygydd
AN4 – Diffinio amcanion	Ie	Ie	Cyflawn
AN5 – Cyflwyniad i newid hinsawdd	Ie	Na	Gyda'r cyfieithydd

http://llaisygoedwig.org.uk/cy/yr-hyn-a-wnawn/nodiadau-ymgynghorol/

Astudiaethau Achos

Yn 2010, galwodd Bwrdd Llais y Goedwig ar unrhyw grŵp coetir cymunedol oedd yn teimlo y gallent roi rhai o'u profiadau mewn astudiaeth achos. Cawsom ymateb da iawn ac mae pum astudiaeth achos wedi dechrau ymddangos yn ystod y misoedd diwethaf. Nid yw adrodd eich stori yn waith hawdd, a chredwn ei fod wedi bod yn broses ddefnyddiol iawn ar gyfer grwpiau sydd wedi ymroi i wneud hynny. Mae pob un o'r astudiaethau achos yn cynnwys gwersi gwahanol i'w dysgu am goetiroedd cymunedol, yn seiliedig ar brofiadau unigryw grwpiau sy'n aelodau o bob rhan o Gymru. Bydd y dogfennau hyn i gyd ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan neu gellir eu prynu ar ffurf copi caled gyda'r tanysgrifiad cyhoeddiadau.

Astudiaeth achos	Saesneg	Cymraeg	Statws
CS1 – Ymateb i gyfleoedd: Coedlan Gymunedol Blaen Brân	Ie	Ie	Cyflawn
CS2 – Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ruperra	Ie	Na	Gyda'r cyfieithydd
CS3 – Coed Marros	Na	Na	Yn cael ei baratoi
CS4 - Llangatwg	Na	Na	Yn cael ei baratoi
CS5 – Coed y Bobl	Na	Na	Yn cael ei baratoi

http://llaisygoedwig.org.uk/cy/yr-hyn-a-wnawn/astudiaethau-achos/

Newyddion cyllido

Gweler gwefan LlyG am y newyddion diweddaraf am gyllid CGGC a CCGC (rhestrau gweddol gynhwysfawr) http://llaisygoedwig.org.uk/resources/funding/

Gallwch hefyd chwilio am gronfeydd ar safle WCVA am ddim yn http://www.sustainablefundingcymru.org.uk/welcome

Cronfa'r Loteri Fawr yn cyhoeddi'r Gronfa Mileniwm Nawr

Mae Cronfa'r Loteri Fawr wedi cyhoeddi y bydd yn lansio rhaglen gwerth £11 miliwn i'w fuddsoddi mewn pum prosiect a ddewisir gan y cyhoedd. Cyhoeddwyd hyn gan Brif Weithredwr y Gronfa, Peter Wanless, a hynny'n rhan o adroddiad a oedd yn adolygu effaith economaidd a chymdeithasol cynlluniau a noddir gan Gomisiwn y Mileniwm. I gael gwybod rhagor, cyfeirir pobl sydd â diddordeb at wefan Mileniwm Nawr
(Ffynhonnell: Newyddion Grantfinder, 13/5/11)

Arian i Frwydro yn erbyn Tlodi Tanwydd (DU)

Mae Ymddiriedolaeth Scottish Power Energy People wedi cyhoeddi mai'r dyddiad cau nesaf ar gyfer gwneud cais yw 19 Gorffennaf 2011. Gall yr Ymddiriedolaeth roi arian i fudiadau a grwpiau sydd heb fryd ar wneud elw ac sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed a'r tlawd o ran tanwydd neu'n cynrychioli'r grwpiau hynny. Rhoddir y flaenoriaeth i brosiectau sydd â'r nod o helpu teuluoedd â phlant ifanc a phobl ifanc. Bydd Ymddiriedolaeth Scottish Power Energy People yn rhoi arian grant hyd at fwyafswm o £100,000 i brosiectau sy'n para hyd at dair blynedd.
(Ffynhonnell: Grants Online, Mai 2011)

Sefydliad Friends Provident (DU)

Mae Sefydliad Friends Provident wedi cyhoeddi mai'r dyddiad cau nesaf ar gyfer gwneud cais am grantiau drwy ei Raglen Cynhwysiant Ariannol fydd 5 Awst 2011. Mae'r Sefydliad yn rhoi grantiau gwerth hyd at £200,000 i fudiadau sydd heb fryd ar wneud elw ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael ac allgáu cymdeithasol mewn cymunedau di-fraint. Bydd y

sefydliad yn ystyried ceisiadau am arian cyfalaf neu arian refeniw, am gronfeydd craidd neu am gostau prosiectau. Mae'r Sefydliad yn barod i ystyried ceisiadau gan unrhyw fath o sefydliad annibynnol cyfreithlon, ond dim ond gwaith sy'n gyfreithlon elusennol y gall ei gefnogi.
(Ffynhonnell: Grants Online, Mai 2011)

Cynlluniau ar gyfer ynni o ddŵr yng nghoedwigoedd Cymru

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CCC) wedi nodi nifer o safleoedd o fewn yr ystâd goedwig genedlaethol sydd â'r potensial i ddatblygu cynlluniau ynni dŵr.
Rhoddodd y Gweinidog Materion Gwledig, Elin Jones, y newyddion diweddaraf am ei chais i CCC i nodi'r potensial ar gyfer datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy â chymunedau lleol.
Cliciwch yma am fwy o fanylion
http://wales.gov.uk/newsroom/environmentandcountryside/2011/110325energyplans/?skip=1&lang=cy

FreeTree

Mae FreeTree yn darparu coed collddail a llydanddail neu goed ffrwythau / cnau am ddim i unigolion, grwpiau cymunedol ac ysgolion neu sefydliadau addysgol eraill, i'w plannu yn eu gerddi, mewn gofod cymunedol neu goetiroedd. Mae hyn yn annog pobl i dyfu coed nid yn unig ar gyfer coed tân neu fwyd ond hefyd fel dalfeydd carbon ac i addysgu unigolion a grwpiau lleol ar dyfu, plannu a gofalu am goed. Mewn llawer o amgylchiadau nid yw coed sy'n cenhedlu'n naturiol yn tyfu i fod yn goed aeddfed. Er enghraifft, gall yr hadau gwympo'n rhy agos at y fam goeden sy'n golygu nad ydynt yn cael digon o oleuni, dŵr a maeth neu os oes cystadleuaeth rhy ffyrnig gan chwyn neu lystyfiant arall. Mae pori naturiol hefyd yn eu peryglu ac weithiau, wrth gwrs, mae coed yn tyfu mewn lle anghyfleus.

Dechreuodd FreeTree, a sefydlwyd fis Mawrth 2009, drwy dyfu coed ifanc mewn potiau a'u rhoi am ddim mewn ffeiriau gwyrdd. Y llynedd, rhoddwyd 90 o goed i bobl leol a grwpiau cymunedol a'r gwanwyn diwethaf cafwyd y cyfle cyntaf i gysylltu â phlannwr coed lleol a oedd â gormod o stoc ar ei ddwylo a pherchennog coedlan fechan. Arweiniodd hyn at blannu bron i 3,000 o goed gwreiddiau noeth a fyddai wedi cael eu dinistrio fel arall. Ewch i www.freetree.info.

Lansio Cynllun Grantiau *Creu Coetiroedd Glastir*

Nod Cynllun newydd Creu Coetiroedd Glastir yw helpu i gefnogi'r ymroddiad i greu mwy o goetiroedd brodorol a chymysg, fel sydd wedi'i ddatgan yn Coetiroedd i Gymru, strategaeth coetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n elfen benodol o Glastir, cynllun rheoli tir cynaliadwy newydd Cymru, ac mae'n cynnig grantiau i berchnogion tir, yn enwedig ffermwyr, i greu coetiroedd newydd ar eu tir.

Bydd tri math o grant ar gael i bob perchennog tir yng Nghymru – grantiau sefydlu coetiroedd, grantiau ffensio a grantiau premiwm ar gyfer creu coetiroedd. Y grant mwyaf fydd ar gael fydd £10,000 ar gyfer pob hectar yn ystod y 15 mlynedd o daliadau. Darperir grantiau ffensio gwerth £3.15 y metr pan fo angen. Gall y grantiau gefnogi costau creu coetiroedd newydd yn ogystal â 'thaliadau ildio incwm' am dynnu tir allan o amaethyddiaeth. Gall unrhyw berchnogion tir yng Nghymru wneud cais, pa un ai ydynt yn ffermwyr ai peidio. Gellir cyflwyno cais ar unrhyw adeg. www.forestry.gov.uk/forestry/infd-6j2gxd.

Dangos ffilmiau rhyngwladol am goedwigoedd

Daeth diwrnod cyntaf cynhadledd "Cyllido Coedlannau Cymunedol" i ben gyda dangos rhai o'r ffilmiau o'r Ŵyl Ffilmiau Rhyngwladol am Goedwigoedd a gynhaliwyd yn gynharach eleni yn Jackson Hole yn yr Unol Daleithiau. Mae Llais y Goedwig wedi llwyddo i gael saith o'r rhestr enfawr o ffilmiau a ddangoswyd yn yr ŵyl honno. Mae'r saith hyn i gyd yn canolbwyntio ar goedlannau cymunedol ac yn cynrychioli cymunedau coedwigaeth a choedlannau cymunedol o bob rhan o'r byd. Gwnaed argraff arbennig arnom gan y ffilm 'Satoyama',

portread hardd o berthynas rhwng coedlan a phentref yn symud trwy un flwyddyn. Mae ffilmiau eraill yn y set yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â choedwigaeth mewn gwahanol wledydd fel Indonesia, Rwsia a'r DU.

Mynegodd grwpiau o aelodau yn y gynhadledd ddymuniad i gynnal eu ffilmiau eu hunain a'r cynllun yw helpu grwpiau sy'n dymuno gwneud hynny i wneud hyn. Cysylltwch ag Adam Thorogood os hoffech gynnal eich sgriniad eich hun: adamthorogood@llaisygoedwig.co.uk

JACKSON HOLE WILDLIFE FILM FESTIVAL

INTERNATIONAL YEAR OF FORESTS • 2011

Mae Llais y Goedwig yn gymdeithas wirfoddol o grwpiau coedlannau cymunedol a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 2009 i ddarparu llais ar gyfer coedlannau cymunedol. Dymunwn rannu profiadau, cefnogi ein gilydd a gwella coedlannau lleol er budd pobl Cymru.

Cysylltwch â ni
Llais y Goedwig
Uned 6, Parc Eco Dyfi
Machynlleth, Powys
SY20 8AX
Ffôn: 0845 456 0342
www.llaisygoedwig.org.uk

INTERNATIONAL YEAR OF FORESTS • 2011

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Slip archebu i'w rwygo ymaith

Dychwelwch y slip hwn at Jo yn Uned 6 gyda siec yn daladwy i "Llais y Goedwig" ac fe anfonwn y nwyddau atoch.

Enw:

Cyfeiriad:

Grŵp:

	Pris	Nifer (a'r maint os yn gymwys)	Cyfanswm
Tanysgrifiad blynyddol o gyhoeddiadau printiedig	**£20**		
Darllenydd Newid Hinsawdd ar ffon USB	**£10**		
Crys-T – steil dynion	**£10**		
Crys-T – steil merched	**£10**		
Ychwanegwch y tâl postio:			
Darllenydd Newid Hinsawdd	**50c**		
Crys(au)-T	**£2.50**		
CYFANSWM:			